# Crynodeb Cyfarfod

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod:** | Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru: FMCG 64 | | |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 2 Gorffennaf 2019 | **Lleoliad:** | Canolfan Addysg Parc Bute, Caerdydd, CF10 3DX |
| **Amser y Cyfarfod:** | 10:30 – 13:00 | | |
| **Yn bresennol:** | Howard Davies (CNC, Cadeirydd), Carys Drew (Ysgrifenyddiaeth CNC), Dr John O'Connor (Angling Cymru), Mark Weston (BHS), Elfyn Jones (Cyngor Mynydda Cymru), Steve Rayner (Canŵ Cymru), Stuart France (Cyngor Ogofa'r Cambria), Rachel Evans (Y Gynghrair Cefn Gwlad), Charles de Winton (CLA Cymru), Kieron Foster (Cycling UK), Paula Brunt (Y Cerddwyr Anabl), David Evans (Ymddiriedolaeth Cwm Elan), Bernard Griffiths (Undeb Amaethwyr Cymru), Ruth Rourke (Sefydliad Swyddogion Hawliau Tramwy Cyhoeddus), Bronwen Gardiner (NFU Cymru), Jonathan Hughes (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Beverley Penney (Y Gymdeithas Mannau Agored), Rebecca Brough (Cerddwyr Cymru), Gwyn Smith (Sustrans), Rowland Pittard (Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid), Jont Bulbeck (CNC), Tom Sharp (Cymdeithas Chwaraeon Cymru), Sarah Smith (LIC), Tom Cosson (LIC) | | |
| **Sylwedyddion:** | Pete Brunt (wedi dod gyda Paula Brunt) | | |
| **Ymddiheuriadau**: | Neil Buffery (Cymdeithas Yrru Prydain) Chris Tomley (LARA), John Morgan (FfMLlau Cymru) Cynrychiolydd (Parciau Cenedlaethol Cymru), Steven Morgan (Chwaraeon Cymru) | | |
| **Cyflwynwyr:** | Simon Pickering (LIC) | | |

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, ac yn enwedig y rhai oedd yn mynychu am y tro cyntaf. Atgoffwyd pawb fod croeso iddynt gyfrannu yn Gymraeg neu Saesneg, beth bynnag oedd orau ganddynt.

## 2. Camau Gweithredu a Materion yn Codi

Rhoddwyd diweddariad gan yr Ysgrifennydd ar y camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf fel a ganlyn:

| **Cam gweithredu** | **Statws** |
|---|---|
| Cam Gweithredu Newydd 63.1: Carys Drew i gwblhau'r ddogfen Cylch Gorchwyl a chyhoeddi'r drafft terfynol i aelodau ar ôl y cyfarfod hwn. Bydd y Fforwm nawr yn ystyried ac yn cadarnhau'r ddogfen Cylch Gorchwyl derfynol yng nghyfarfod y Fforwm ym mis Gorffennaf 2019. | Ar y gweill – eitem wedi'i chynnwys i'w chwblhau ar yr agenda hwn. |
| *[Tudalen 7] Cam Gweithredu 62.3: Carys Drew i chwilio am siaradwr priodol mewn perthynas â Theithio Llesol ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol* | Ar y gweill – Wedi dod o hyd i siaradwr, ond gan fod cynhadledd Teithio Llesol yn digwydd, byddant yn mynychu ac yn cyflwyno yn ystod cyfarfod Tachwedd. |
| [Tudalen 7] Cam Gweithredu 62.4: Carys Drew i gysylltu â chysylltiadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn mewn perthynas â phresenoldeb yn Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru | Cwblhawyd. Wedi cysylltu, a chyn belled â bod rhywun ar gael, bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn mynychu unwaith eto. Y cyswllt newydd yw James Nevitt, Uwch Ymgynghorydd Mynediad a Hamdden (Tîm Cefnogi a Chydymffurfio Amgylcheddol). Nid oedd James yn gallu mynychu'r cyfarfod hwn, ond mae'n edrych ymlaen at fynychu ym mis Tachwedd. |
| Cam Gweithredu 63.2: Y Cyflwyniad i'w ddosbarthu i'r aelodau | Cwblhawyd |
| Cam Gweithredu Newydd 63.3: Dylai aelodau'r Fforwm gysylltu ag EE-J neu Paul Donovan am ragor o wybodaeth neu fanylion am yr adnoddau sydd ar gael | Cyflawnwyd |
| Cam Gweithredu 63.4 | Ar y gweill – wedi'i gynnwys i'w gwblhau ar yr agenda hwn eitem 3. |

| | |
|---|---|
| a. Ni chafwyd consensws ynghylch aelodau AC yn seiliedig ar gyflwyniad SMS.<br>b. Teimlwyd bod y cyflwyniad yn canolbwyntio gormod ar weithio rhanbarthol ar lefel unigol yr Ymddiriedolaeth Afonydd<br>c. Roedd yr Aelodau eisiau rhagor o wybodaeth gan SMS ynghylch perthnasedd gwaith mynediad Afonydd Cymru i waith y Fforwm ar lefel genedlaethol ac i hynny<br>d. Dylid gofyn i SMS/CNC ddarparu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth CNC-Afonydd Cymru. Bydd hyn hefyd yn cael ei rannu gydag aelodau'r Fforwm fel gwybodaeth bellach i'w hystyried<br>e. Eitem i'w chynnwys yn agenda cyfarfod Gorffennaf 2019 i ddod i ben â'r cais<br>f. Dylid gwahodd SMS fel sylwedydd i'r cyfarfod nesaf | |
| Cam Gweithredu 63.5: CNC i ychwanegu gwybodaeth yr NFU(C) at ddogfen Cyfraniadau Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru cyn iddi gael ei gosod ar y Wefan. | Cwblhawyd |
| Cam Gweithredu 63.6 Bydd CNC yn pennu dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd Fforwm 2020 ac yn hysbysu'r aelodau mewn da bryd ar gyfer y cyfarfod nesaf. | 3 Mawrth 2020 – Gogledd<br>30 Mehefin 2020 – De<br>3 Tachwedd 2020 – Canolbarth |

Aeth y Cadeirydd wedyn trwy'r materion a oedd yn codi:

| ***Mater yn codi*** | **Diweddariad** |
|---|---|
| **1.** ***(tudalen 2) Gofynnodd y Dirprwy Weinidog*** *i SF nodi'r pwyntiau hynny ar bapur er mwyn i Lywodraeth Cymru eu hystyried ymhellach. Nododd* ***SP*** *fod LIC wedi dilyn dehongliad CNC ar y mater hwn, ond y byddant yn ystyried y mater* | Mae Stuart France, Cyngor Ogofa'r Cambria, wedi cyflwyno mwy o wybodaeth ac mae LIC wedi ymateb. Mae Swyddogion wedi adolygu a byddant yn gofyn i'r Grŵp Diwygio Mynediad ystyried a ddylid cynnwys hyn o fewn cwmpas ei waith. |

| | |
|---|---|
| *ymhellach unwaith y byddant wedi erbyn gwybodaeth bellach gan SF.* | |
| **2.** *(top tudalen 3) Ysgrifennodd Cycling UK a Chymdeithas Ceffylau Prydain at Lywodraeth Cymru yn cynnig Llwybrau Cenedlaethol amlddefnydd newydd yng Nghymru [a'r DU].* | Mae LIC wedi ymateb i'r llythyr. Safiad LIC yw nad oes cynlluniau i sefydlu Llwybr Cenedlaethol newydd ar hyn o bryd, a bod y ffocws presennol ar symud y cynigion yn eu blaen o ran diwygio mynediad. Mae'n nodi hefyd y bydd nifer o'r cynigion hyn o bosibl yn hwyluso creu llwybr o'r fath yn y dyfodol. |
| **3.** *(Tudalen 5) Awgrymodd BG fod yr ysgrifenyddiaeth yn gwahodd rhywun o Lywodraeth Cymru i siarad am yr agweddau mynediad hamdden ar gynllun rheoli tir ar ôl-Brexit yn y dyfodol.* | Bydd ail ymgynghoriad LIC ar y trefniadau rheoli tir newydd yn digwydd yn fuan, a chynlluniwyd sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd i gyd-fynd â hyn.<br><br>Pwysleisiodd aelodau ei bod yn bwysig cael digon o rybudd cyn Sioe Frenhinol Cymru er mwyn iddynt allu defnyddio'r cyfle hwnnw i godi ymwybyddiaeth ynghylch yr ymgynghoriad ac annog ymatebion. |
| **4.** *Tudalen 8 RP (Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid) Bydd yn her sylweddol i sefydliadau ymgysylltu â 7 Datganiad Ardal. A oes ffordd i hynny ddigwydd yn genedlaethol?* | Mae CNC wedi penodi cymorth allanol (Cynnal Cymru) a fydd yn cynorthwyo o ran trefnu gweithdy Datganiad Ardal cenedlaethol wedi'i anelu at fudiadau sy'n gweithio ar lefel Cymru gyfan, a bydd gwahoddiad i aelodau fforymau dan gadeiryddiaeth CNC i gymryd rhan. Mae hyn yn debygol o ddigwydd yn yr hydref. Bydd ffocws ar sut fydd Datganiadau Ardal â'i gilydd yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau, y cyfleoedd a'r heriau a nodwyd yn y Polisi Adnoddau Naturiol.<br><br>Fel rhan o hyn, rydym yn rhoi sylw i'r angen penodol i gefnogi'r Cyrff Anllywodraethol llai sy'n methu ymgysylltu'n unigol gyda'r 7 Ardal |

| | |
|---|---|
| | ond sydd er hynny â diddordeb ymhob un o'r ardaloedd.<br><br>Bydd aelodau FMGC yn cael eu gwahodd i'r digwyddiad a fydd yn cynnwys y Fforymau y mae CNC yn eu cadeirio. |

| | |
|---|---|
| 10.40 | **3. Cais i ymaelodi**<br>Ystyried Cais Ymaelodi gan Afonydd Cymru<br><br>Gofynnwyd i sylwedyddion adael yr ystafell tra bod y cais i ymaelodi yn cael ei drafod.<br><br>Roedd yr Ysgrifenyddiaeth wedi adolygu'r mater ac wedi darparu i'r aelodau asesiad o'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan Afonydd Cymru yn dilyn eu cyflwyniad yn y cyfarfod diwethaf er mwyn ateb rhai o'r cwestiynau a godwyd.<br><br>Yn dilyn trafodaeth rhwng aelodau, cytunwyd y dylid gwahodd Afonydd Cymru i ymuno â'r Fforwm, a gwahoddwyd eu cynrychiolydd, Stephen Marsh-Smith i ymuno â gweddill y cyfarfod.<br><br>**Cam Gweithredu 64.1: Yr Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu Afonydd Cymru at aelodaeth y Fforwm a diweddaru'r cofnodion perthnasol.** |
| | **5. Diweddariad a thrafodaeth ar Ddiwygio Mynediad**<br>Simon Pickering, Pennaeth Tirwedd a Hamdden Awyr Agored<br><br>Rhoddodd Simon Pickering gyflwyniad ynghylch y camau nesaf o ran datblygu'r Diwygio Mynediad yn dilyn datganiad ysgrifenedig y Dirprwy Weinidog a gyhoeddwyd yn y cyfarfod diwethaf. Bydd LIC yn arwain y gwaith, gyda CNC yn darparu cyngor; caiff grŵp llywio sef Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad (ARAG) ei sefydlu hefyd i lywio a goruchwylio'r gwaith.<br><br>**Pwyntiau trafod:**<br><br>• Mae'n ddefnyddiol myfyrio ar y rhesymau dros ddiwygio mynediad a'r manteision a geisir, gan gynnwys iechyd meddwl a chorfforol, twristiaeth a manteision economaidd. Awgrym bod angen adlewyrchu'r manteision hyn yng nghyfansoddiad y grŵp llywio.<br>• Angen ystyried ysgogiadau allweddol a chyflawni gwelliannau ar raddfa fawr, nid materion bach, dadleuol eu natur<br>• Cyfle i gysylltu â Datganiadau Ardal a gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Chynlluniau Llesiant ar lefel leol |

- Mae arweinyddiaeth ARAG yn bwysig ac mae angen i'r arweinyddiaeth ennyn hyder rhanddeiliaid; mae'n bwysig cael dulliau gweithio clir a thryloyw
- Ceir dull gweithredu dwy-haen; bydd ARAG yn llywio'r broses gyda'r aelodaeth yn dod o sefydliadau sector cyhoeddus. Bydd grwpiau arbenigol yn cynnwys cynrychiolaeth o gyfeiriad sectorau tirfeddianwyr a defnyddwyr
- Darperir adborth ar gynigion Grŵp 2 orau o fewn amserlen ARAG (a rennir ar ddiwedd y cyflwyniad). Gellir darparu adborth ar gynigion Grŵp 1 ynghynt
- Awgrym y dylid ystyried mater ehangach digwyddiadau gweithgareddau ac nid mynd i'r afael ag anomaledd digwyddiadau beicio ar lwybrau ceffylau yn unig
- Mae hamdden gyfrifol yn nod clodwiw ac mae angen dechrau'n gynnar ym myd addysg er mwyn i hyn ddod yn rhan o ymddygiad pobl. Mae angen cael ymgyrch gref a diweddaru a moderneiddio'r cod cefn gwlad
- Cwestiwn ynghylch e-feiciau a sut gaiff y rhain eu hystyried
- Sylw ynghylch natur fasnachol y rhwydwaith hawliau tramwy, a phwy ddylai dal pan fydd pobl yn cynhyrchu incwm yn seiliedig ar ddefnydd ohono
- Nodwyd bod nifer o wahanol feysydd o fewn Llywodraeth Cymru sydd angen bod yn rhan o'r sgwrs gan gynnwys twristiaeth ac iechyd; mae'r trafodaethau hyn eisoes yn digwydd ond bydd angen dangos hyn yn glir fel rhan o'r broses
- Awgrym bod angen cynllun cyfathrebu fel rhan o'r broses, nid yn unig i randdeiliaid sydd â diddordeb, ond hefyd i'r cyhoedd yn gyffredinol
- Angen cryfhau'r cysylltiad rhwng hawliau tramwy a Theithio Llesol, pryder nad oes cyllid ychwanegol i hawliau tramwy tra bod Teithio Llesol yn denu cryn fuddsoddiad
- Mae'n bwysig bod cefnogaeth yn digwydd ar lefel Gweinidogol rhwng Lee Waters AC, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth a Hannah Blythyn AC, Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
- Yn dilyn y datganiad ysgrifenedig, bydd FMCG yn sefydlu is-grŵp i ystyried mynediad i ddŵr mewndirol. Nodwyd bod mynediad i ddŵr yn gofyn am ddulliau rheoli gwahanol i fynediad i dir.
- Mae LIC yn fodlon rhannu Cylch Gorchwyl ARAG gyda'r Fforwm WG
- Mae LIC yn disgwyl sefydlu 4 grŵp arbenigol yn gweithio i ARAG gan edrych ar y cynigion o ran diwygio mynediad
- Bydd yn rhaid i LIC gynnal ystod o asesiadau effaith wrth ddatblygu deddfwriaeth
- Bydd angen rheoli a bod yn dryloyw ynghylch datblygiad diwygio mynediad ochr yn ochr â'r gwaith mewn perthynas â Brexit a'n hymgynghoriad tir

**Cam Gweithredu 64.2: Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu'r cyflwyniad ar Ddiwygio Mynediad i aelodau**

| | |
|---|---|
| **12:20** | **5. Cylch Gorchwyl**<br><br>Cymeradwywyd y Cylch Gorchwyl gan y Fforwm yn amodol ar ychwanegu cymal adolygu y cytunwyd y byddai'n digwydd bob 3 blynedd.<br><br>**Cam Gweithredu 64.3: Ysgrifenyddiaeth i gynnwys cymal adolygu a chyhoeddi'r Cylch Gorchwyl ar wefan FMCG** |
| **12:30** | **6. Cyfraniadau gan bawb**<br><br>Atgoffodd y Cadeirydd bawb o fanteision cynnwys cyfraniadau ysgrifenedig i'w rhannu gyda chydweithwyr. Mae'r cyfraniadau a dderbyniwyd wedi'u colau a'u dosbarthu gan yr ysgrifenyddiaeth. Mae pwyntiau ychwanegol yn cynnwys:<br><br>- Sefydliad Swyddogion Hawliau Tramwy Cyhoeddus (IPROW): Nododd Ruth Rourke bod diweddariad IPROW ar y National Street Gazetteer yn rhoi dechreubwynt da i fap digidol statudol Cymru gyfan<br>- Canŵ Cymru: Nododd Steve Rayner bod Canŵ Cymru yn recriwtio staff ar hyn o bryd<br>- Sustrans: Nododd Gwyn Smith bod y rhaglen RDP wedi dod i ben. Maent yn datblygu prosiect i lenwi bylchau yn y Rhwydwaith Seiclo Cenedlaethol. O ystyried yr argyfwng hinsawdd, gofynnodd a allai'r Fforwm ystyried ei ôl troed carbon a sut y gellid lleihau hyn.<br>- Y Cerddwyr Anabl: tynnodd Paula Brunt sylw at y digwyddiadau sy'n cael eu trefnu gan Y Cerddwyr Anabl yng Nghymru gan wahodd aelodau i ymuno<br>- Angling Cymru: wedi mynychu'r cyfarfod, nododd ei fod yn optimistaidd ynghylch cydweithio ag aelodau'r Fforwm o fewn Cylch Gorchwyl y Fforwm<br>- Cycling UK: Nododd Kieron Foster bod Cycling UK yn gweithio ar lwybr oddi ar y ffordd rhwng Llundain a John O'Groats – 700 milltir yn bennaf oddi ar y ffordd a cham o'r prosiect yn y dyfodol yng Nghymru<br>- WSA: Nododd Tom Sharp bod WSA yn cynrychioli dros 80 o aelodau gyda sawl sefydliad yn yr ystafell yn aelodau. Nododd bwysigrwydd ystyried campau a thechnoleg sy'n dod i'r amlwg wrth symud ymlaen gyda diwygio mynediad.<br>- BMC: Nododd Elfyn Jones bod y BMC yn ad-drefnu ac adolygu ar hyn o bryd, gan fynd i'r afael â'r angen i foderneiddio. Mae bwrdd newydd wedi'i ffurfio, sy'n ystyried hunaniaeth BMC yng Nghymru. Byddai dringo'n rhan o Gemau Olympaidd 2024 ac mae diddordeb cynyddol, ac angen i reoli'r pontio rhwng dringo dan do a dringo yn yr awyr agored.<br>- Y Gymdeithas Mannau Agored: Nododd Beverley Penney bod Y Gymdeithas Mannau Agored yn edrych ar gynyddu capasiti yng Nghymru.<br>- Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid: Nodwyd bod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid Lloegr a Chymru wedi'i |

gynnal yn ddiweddar, gyda nifer o ddogfennau yn edrych ar effaith a dylanwad Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid.

- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol: Nododd Jonathan Hughes bod gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Gyfarwyddwr Cyffredinol newydd a'u bod yn awyddus i ehangu eu hapêl i bawb. Mae gan gefn gwlad rôl bwysig amlwg i'w chwarae ac mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn parhau i ganolbwyntio ar yr awyr agored ac yn bartner pwysig ym menter Parciau'r Dyfodol.
- Mae'n bwysig ystyried mynediad agos i le mae pobl yn byw. Ystyried Mannau Gwyrdd Trefol fel testun i'r FMCG i'r dyfodol.

**Cam Gweithredu 64.5: Ysgrifenyddiaeth a'r holl aelodau i ystyried cyfleoedd i leihau ôl troed carbon cyfarfodydd**

**Cam Gweithredu 64.6: Ysgrifenyddiaeth/Cadeirydd i ystyried Mannau Gwyrdd Trefol fel eitem agenda i'r dyfodol**

---

## 6. Unrhyw Fater Arall

Cysylltwyd â'r ysgrifenyddiaeth ar ran cyfarfod Cadeiryddion FfMLlau Cymru. Roedd Cadeiryddion FfMLl wedi gofyn i FMCG ystyried newid ei enw i osgoi unrhyw ddryswch gyda Chadeiryddion FfMLlau Cymru.

Wrth drafod y mater, nododd y Fforwm y byddai'n ystyried y potensial am ddryswch, ond fel Fforwm sydd wedi'i hen sefydlu, nid oedd o'r farn bod angen newid yr enw. Mae'r Cylch Gorchwyl a ddiweddarwyd yn nodi rôl FMCG yn glir.

---

## 7. Rhagolwg a dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf

5 Tachwedd 2019 – Canolfan Lletygarwch Powys, Marchnad Da Byw y Trallwng, SY21 8SR
3 Mawrth 2020 – Gogledd Cymru (lleoliad i'w gadarnhau)
30 Mehefin 2020 – De Cymru (lleoliad i'w gadarnhau)
3 Tachwedd 2020 – Canolbarth Cymru (lleoliad i'w gadarnhau)

---

**13:00** **Cinio**

---